# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 5

DARPARIAETH ATODOL YNGHYLCH ADEILADAU O DDIDDORDEB ARBENNIG AC ARDALOEDD CADWRAETH

## PENNOD 2

ACHOSION GERBRON GWEINIDOGION CYMRU

*Ymchwiliadau lleol*

PROSPECTIVE

### 178 Mynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad

(1) Mewn ymchwiliad lleol a gynhelir o dan y Rhan hon—

(a) rhaid clywed tystiolaeth lafar yn gyhoeddus, a

(b) rhaid i dystiolaeth ddogfennol fod ar gael i'r cyhoedd edrych arni.

(2) Ond os yw awdurdod gweinidogol wedi ei fodloni bod y ddau amod yn is-adran (3) wedi eu bodloni mewn perthynas ag ymchwiliad, caiff gyfarwyddo nad yw tystiolaeth o ddisgrifiad a bennir yn y cyfarwyddyd i'w chlywed nac ar gael i edrych arni yn yr ymchwiliad hwnnw ond gan bersonau a bennir yn y cyfarwyddyd neu gan bersonau o ddisgrifiad a bennir ynddo.

(3) Yr amodau yw—

(a) y byddai rhoi tystiolaeth o ddisgrifiad penodol yn gyhoeddus neu ei rhoi ar gael i'r cyhoedd edrych arni yn debygol o arwain at ddatgelu gwybodaeth—

***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 178 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 17 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(i) am ddiogelwch cenedlaethol, neu

(ii) am y mesurau a gymerwyd neu sydd i'w cymryd i sicrhau diogelwch unrhyw dir neu unrhyw eiddo arall, a

(b) y byddai datgelu'r wybodaeth i'r cyhoedd yn erbyn y buddiant cenedlaethol.

(4) Os yw awdurdod gweinidogol yn ystyried rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon, caiff y Cwnsler Cyffredinol benodi person ("cynrychiolydd a benodir") i gynrychioli buddiannau unrhyw berson a fydd yn cael ei atal rhag clywed unrhyw dystiolaeth neu edrych ar unrhyw dystiolaeth mewn ymchwiliad lleol os rhoddir y cyfarwyddyd.

(5) Os nad oes cynrychiolydd a benodir pan fydd awdurdod gweinidogol yn rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon, caiff y Cwnsler Cyffredinol benodi person yn gynrychiolydd a benodir ar unrhyw adeg at ddibenion yr ymchwiliad.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) y weithdrefn sydd i'w dilyn gan awdurdod gweinidogol cyn iddo roi cyfarwyddyd o dan yr adran hon mewn achos pan fo cynrychiolydd a benodir;

(b) swyddogaethau cynrychiolydd a benodir.

(7) Yn yr adran hon ac adran 179, ystyr "awdurdod gweinidogol" yw Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 178 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 178 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 17 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 11(3) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(2)
- s. 58(4)(c) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(3)
- s. 88(4) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(4)
- s. 118(2)(f) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(5)
- s. 161(6) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(6)